CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

# Strategaeth Tlodi Plant

## Adroddiad cynnydd

Cyngor Llyfrau Cymru / Books Council of Wales
Castell Brychan Aberystwyth Ceredigion SY23 2JB
01970 624 151 llyfrau.cymru

An English-language version of this document is also available /
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad adolygu: 2016

# 1 Cyflwyniad

Datblygwyd y Strategaeth Tlodi Plant gan Gyngor Llyfrau Cymru yn ystod 2012, ac fe'i cadarnhawyd gan Huw Lewis AM, y cyn-Weinidog Treftadaeth a Chwaraeon.

Fel y nodwyd yn y ddogfen honno, mae lleihau Tlodi Plant drwy ehangu mynediad i gyfleoedd ac adnoddau i deuluoedd, plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru. Yn sgil ei gyfrifoldeb dros ddatblygu'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru yn y ddwy iaith, fe wêl y Cyngor Llyfrau fod y weledigaeth honno'n rhan annatod o'i waith yn hyrwyddo llythrennedd, hybu llyfrau a darparu deunydd darllen apelgar.

Y mae pedwar prif faes i'r Strategaeth Tlodi Plant, sy'n nodi y bydd Cyngor Llyfrau Cymru'n gwneud y canlynol:

| | |
|---|---|
| **Amcan Strategol 1:** | Chwarae rôl ganolog yn y broses o ddatblygu deunydd darllen amrywiol ac addas sy'n angenrheidiol i sbarduno darllenwyr ifanc o amrywiol gefndiroedd |
| **Amcan Strategol 2:** | Dosbarthu gwybodaeth am ddeunydd darllen ymysg cynulleidfaoedd amrywiol |
| **Amcan Strategol 3:** | Datblygu cyfleoedd i hyrwyddo llythrennedd a darllen drwy gynlluniau penodol |
| **Amcan Strategol 4:** | Cyfrannu at gynhwysiad teuluol a fydd yn sicrhau'r gefnogaeth angenrheidiol i blant a phobl ifanc |

# 2 Adroddiad ar yr Amcanion Strategol

## Amcan Strategol 1:

**Chwarae rôl ganolog yn y broses o ddatblygu deunydd darllen amrywiol ac addas sy'n angenrheidiol i sbarduno darllenwyr ifanc o amrywiol gefndiroedd**

### Cyhoeddiadau Cymraeg

Fel y nodwyd mewn Adroddiadau Cynnydd blaenorol, mae'r Cyngor yn ymwybodol iawn o'r angen i gefnogi ystod o lyfrau a deunydd darllen i ateb gofynion darllenwyr o wahanol gefndiroedd fel bod modd i'r darllenwyr hynny uniaethu â'r cynnwys. Trwy'r Panel Grantiau Cyhoeddi (Cymraeg), mae'r Cyngor yn cefnogi llyfrau i blant; mae oddeutu 100 o lyfrau'n ymddangos bob blwyddyn – teitlau sy'n gyfuniad o lyfrau gwreiddiol ac addasiadau – a chredwn fod y ddarpariaeth yn cyflwyno ystod eang o lyfrau amrywiol. Mae'r ystod llyfrau hefyd yn cynnwys cyfrolau dwyieithog lle gall oedolion di-Gymraeg gefnogi'r plant gyda'u darllen.

Ym maes llyfrau hamdden y mae pwyslais y Cyngor, a bu nifer y llyfrau Cymraeg a gefnogir gennym yn weddol gyson dros y blynyddoedd diwethaf. Yn anffodus, nid yw hyn mor wir am lyfrau yn y maes addysgol, gyda nifer ohonynt yn cael eu cefnogi gan Adran Addysg y Llywodraeth.

Gwelwyd gostyngiad sylweddol – cwymp o 245 i 78 – yn y nifer o lyfrau addysgol a gyrhaeddodd y Ganolfan Ddosbarthu yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Cafodd hyn effaith ar y nifer o lyfrau a werthwyd, ac o ganlyniad y nifer o lyfrau oedd yn cyrraedd yr ysgolion. Rhaid nodi bod yna gynnydd yn y deunydd digidol a ymddangosodd yn ystod yr un cyfnod, ac fe welir fod cynnydd yn y nifer o lyfrau a gyhoeddir eleni.

Mae'r Panel Grantiau Cyhoeddi (Cymraeg) wedi rhoi sylw penodol i faes llyfrau plant dros y cyfnod diwethaf, a chomisiynwyd adroddiad gan Dr Siwan Rosser ar y ddarpariaeth bresennol a gofynion y farchnad. Disgwylir i'r adroddiad llawn gael ei gyflwyno erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon.

### Cyhoeddiadau Saesneg

Er mai cymharol fychan yw'r nifer o lyfrau Saesneg i blant a gefnogir gan y Cyngor, mae datblygiadau sylweddol wedi eu cyflawni yn ystod y cyfnod diwethaf. Cyhoeddiadau Pont, sef gwasgnod Gwasg Gomer yn y maes, fu'r brif gynhaliaeth am flynyddoedd; roedd eu llyfrau safonol wedi eu gwreiddio'n gadarn yng Nghymru ac yn fodd i blant gael cyfle i ddarllen am eu profiadau a'u hardaloedd eu hunain.

Erbyn hyn, wrth gwrs, mae cyhoeddwr arall wedi dod i'r maes, sef cwmni Firefly, ac mae'r cwmni hwn eisoes wedi cyfrannu'n sylweddol at y ddarpariaeth. O ran cynnwys, mae'r amrywiaeth yn fawr gyda chyfrol wedi'i lleoli mewn cartref i blant, cyfrol yn rhoi sylw i fwlio, ac un arall yn canolbwyntio ar broblemau iselder o fewn y teulu. Mae safon y llyfrau hefyd wedi denu sylw, gyda nifer o'u cyfrolau bellach wedi eu rhestru ar gyfer rhai o brif wobrau llyfrau plant Prydain, ac wedi eu cynnwys mewn rhestrau addas o lyfrau ym mhapurau'r Guardian a'r Times. Mae'r Cyngor yn awyddus iawn i gefnogi Firefly ymhellach a sicrhau eu datblygiad.

Un siom a gafwyd yn ystod y flwyddyn oedd na welwyd y datblygiadau yr oeddem wedi gobeithio amdanynt gyda Schools Challenge Wales – sef cynllun i gefnogi ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru sy'n tanberfformio, gan gynnig yr un cyfleoedd i'r disgyblion hyn â'r rhai sydd ar gael mewn ysgolion eraill. Cafwyd trafodaeth ynghylch trefnu ymweliadau gan awduron profiadol i'r ysgolion fel rhan o raglen i sbarduno'r plant, ond nid yw hyn wedi datblygu fel yr oeddem wedi ei obeithio.

## Amcan Strategol 2:

**Dosbarthu gwybodaeth am ddeunydd darllen ymysg cynulleidfaoedd amrywiol**

Teimlwn mai'r her o hyd yw hyrwyddo'r llyfrau a gyhoeddir ymysg y gynulleidfa darged, sef y plant eu hunain, athrawon ysgol, a'r rhai sy'n prynu llyfrau i blant – boed yn rieni, gofalwyr neu berthnasau.

O safbwynt y plant a'r athrawon, rydym yn ceisio eu cyrraedd yn gyson drwy'r ysgolion. Mae gennym dîm o Swyddogion profiadol sy'n ymweld ag ysgolion ledled Cymru, ac mae gan y llyfrwerthwyr hwythau gysylltiadau cryf â'u hysgolion lleol. Cyhoeddir catalogau o lyfrau Cymraeg a Saesneg, a dosberthir copïau digidol i bob ysgol yng Nghymru.

Mae'r Cyngor yn cynhyrchu atodiadau llyfrau yn gyson, ac unwaith eto mae maes llyfrau plant yn cael sylw haeddiannol ynddynt. Dosberthir y catalogau hyn yn eang, ac rydym yn ymwybodol iawn o'r faith eu bod yn cael croeso mawr gan y darllenwyr.

Bu raid i ni ddod â'r Clwb Llyfrau i ben yn 2015 ond gan barhau i nodi ein hymrwymiad i faes hyrwyddo llyfrau plant. I'r perwyl hwn rydym wedi lansio'r brand @LlyfrDaFabBooks sydd wedi rhoi momentwm newydd i'r gwaith. O dan y cynllun hwn rydym wedi trefnu ymweliadau awdur mewn sawl ardal; mae cyffro'r digwyddiadau hyn yn wirioneddol heintus ac yn sicr yn ffordd effeithiol iawn o sbarduno diddordeb mewn llyfrau a darllen.

Fe sicrheir fod gwybodaeth am y llyfrau yn cael ei ddosbarthu i'r llyfrgelloedd fel bod y cyfrolau ar gael i'w benthyg i'r darllenwyr. Yn ogystal, fel rhan o'r cynllun, cyflwynir stoc o gyfrolau Library of Wales i lyfrgelloedd ysgolion a llyfrgelloedd chyhoeddus yn rhad ac am ddim.

## Amcan Strategol 3

**Datblygu cyfleoedd i hyrwyddo llythrennedd a darllen drwy gynlluniau penodol**

Mae cysylltiad y Cyngor â maes hyrwyddo darllen yn mynd yn ôl i 1998 pryd y gwahoddwyd y Cyngor i gyfarfod yn y Swyddfa Gymreig, fel ag yr oedd ar y pryd. Canlyniad y cyfarfod oedd gwahodd y Cyngor i arwain dathliadau'r Flwyddyn Darllen Genedlaethol. Gwaddol y flwyddyn honno oedd cynnal dathliadau Diwrnod y Llyfr yn flynyddol, gyda'r gweithgareddau'n cael eu noddi gan Adran Addysg y Llywodraeth. Dros y blynyddoedd cwtogwyd yr arian oedd ar gael, ac addaswyd y trefniadau yn unol â'r gyllideb.

Un o'r uchafbwyntiau eleni oedd cynnal digwyddiad mawreddog yn Theatr y Grand, Abertawe ar gyfer 600 o blant yr ardal. Trefnwyd y digwyddiad mewn cydweithrediad â World Book Day UK a bu nifer o awduron o Gymru a Lloegr yn diddanu'r plant. Oherwydd llwyddiant y digwyddiadau hyn yng Nghymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf, Abertawe hefyd oedd canolbwynt yr ymdrech i gynnal y cwis llyfrau mwyaf erioed, a hynny mewn cydweithrediad â'r Guinness Book of Records. Cyhoeddwyd ar Ddiwrnod y Llyfr fod yr ymdrech wedi llwyddo.

Unwaith eto, ymunodd nifer fawr o ysgolion ledled Cymru yn nathliadau Diwrnod y Llyfr, ac rydym yn ymwybodol iawn ei fod bellach yn ddigwyddiad pwysig yng nghalendr y byd addysg.

Fel rhan o frand @LlyfrDaFabBooks, cynhaliwyd digwyddiad yng Nghastell Aberteifi – lle roedd 600 o blant yn bresennol dros ddau ddiwrnod – ac yn ystod y flwyddyn trefnwyd sawl taith awdur mewn gwahanol ardaloedd o Gymru.

Mae'r Cyngor hefyd wedi rhoi sylw i faes hybu darllen a llythrennedd yn y Cynllun Strategaeth a baratowyd eleni. Un o bryderon y Cyngor yw nad yw athrawon bellach mor gyfarwydd â maes llyfrau plant, ac felly'n ei chael yn anodd cyfeirio disgyblion at lyfrau penodol sy'n addas ar gyfer eu hoedran a'u cefndir. Er ein bod yn ymwybodol o'r pwysau gwaith sydd ar athrawon, teimlwn yn gryf fod angen rhoi sylw i'r mater hwn os ydym o ddifrif ynglŷn â hybu llythrennedd.

Bu'r Cyngor hefyd yn cydweithio â'r Reading Agency ar gynllun Sialens Ddarllen yr Haf – cynllun sy 'n ymdrechu i gynnal safonau darllen dros gyfnod gwyliau'r haf gan ddenu plant i'w llyfrgelloedd lleol a'u hannog i ddarllen 6 llyfr o'u dewis eu hunain. Cafwyd lansiad llwyddiannus i'r ymgyrch yng nghwmni Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, yn Llyfrgell Glyn-nedd.

## Amcan Strategol 4

**Cyfrannu at gynhwysiad teuluol a fydd yn sicrhau'r gefnogaeth angenrheidiol i blant a phobl ifanc**

Unwaith eto eleni cafwyd lansiad hynod lwyddiannus i gyfrolau Stori Sydyn/Quick Reads yn y Senedd yng nghwmni Huw Lewis, y Gweinidog dros Addysg ar y pryd. Mae'r llyfrau byr, bachog hyn wedi eu teilwra'n arbennig ar gyfer darllenwyr newydd a darllenwyr anfoddog, ac yn fodd o gyflwyno llyfrau a'r arfer o ddarllen o fewn y cartref.

Oherwydd toriadau i'r gyllideb, ni fu'n bosibl cyhoeddi ond pedair cyfrol eleni – dwy yn Gymraeg a dwy yn Saesneg. Er hyn, nododd Huw Lewis ei fod yn grediniol bod y cyfrolau hyn yn gaffaeliad mawr, a llongyfarchodd y Cyngor, yr awduron a'r cyhoeddwyr ar eu gwaith.

An English-language version of this document is also available /
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg